

ffotogallery

Cwestiynau cyffredin am ein cyrsiau

Pa gyrsiau ydych chi'n eu darparu?

Cyrsiau Cam 1

Cyflwyniad i Ffotograffiaeth: Dechreuwyr
Cyflwyniad i Ffotograffiaeth: Canolradd

Cyrsiau Cam 2

Ffotograffiaeth Ddu a Gwyn
Ffotograffiaeth Ddigidol Uwch
Ffotograffio Pobl
Tirluniau Ffotograffig
Ffotograffiaeth Ddogfennol

Pa gwrs ffotograffiaeth ddylwn i ei astudio gyntaf?

Os oes gennych ddi-ddordeb yn ein cyrsiau ffotograffiaeth, rhaid i'ch astudiaethau ddechrau gyda dau gwrs Cam 1, Cyflwyniad i Ffotograffiaeth: Dechreuwyr a Chyflwyniad i Ffotograffiaeth: Canolradd. Gellir dilyn y ddau gwrs hyn gyda camera SLR 35mm neu unrhyw gamera digidol arall â gosodiadau estynedig.

Yn dilyn y Cyflwyniad i Ffotograffiaeth (Dechreuwyr a Chanolradd), rydym yn cynghori ein myfyrwyr i ddilyn cwrs cam 2 – cwrs ystafell dywyll, Ffotograffiaeth Ddu a Gwyn, neu Ffotograffiaeth Ddigidol Uwch os dewisir dilyn y llwybr digidol. Fel arall, gellir dilyn unrhyw un o'r cyrsiau eraill, yng nghyfrwng ffotograffiaeth analog neu yn y cyfrwng digidol.

Dalier sylw: rhaid i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau Cam 2 mewn cyfrwng digidol ddefnyddio eu hoffer digidol eu hunain – ni allwn gynnig cefnogaeth gyfrifiadurol ar gyfer y cyrsiau hyn (ac eithrio ar y cwrs Ffotograffiaeth Ddigidol Uwch).

A yw cwblhau cwrs Cyflwyniad cyn dilyn cyrsiau eraill yn hanfodol?

Yn y rhan fwyaf o achosion, rydym yn argymhell dechrau gyda'n cyrsiau Cyflwyniad. Maent yn ddelfrydol ar gyfer dechreuwyr ond maent hefyd yn gyrsiau hanfodol i'r rheiny sy'n awyddus i ddysgu sut i brosesu ac argraffu eu delweddau du a gwyn eu hunain, i ddatblygu eu sgiliau, neu i brosesu eu gwaith yn ddigidol gydag Adobe Photoshop.

Bydd y cwrs Dechreuwyr yn eich dysgu chi am osodiadau'r camera, gosod ffocws, cofnodi symudiad a deall y dewisiadau di-ri ar eich camera. Yn ogystal â chymorth technegol, bydd y ddau gwrs yn cyflwyno ochr greadigol ffotograffiaeth trwy archwilio gwaith ffotograffwyr eraill, ystyried fframio a chyfansoddi delwedd, a defnyddio gwahanol amodau goleuo. Bydd y cwrs Canolradd yn cyflwyno elfennau sylfaenol prosesu ffilm a thechnegau argraffu yn yr ystafell dywyll, ac yn rhoi cyflwyniad i brosesu delweddau gydag Adobe Photoshop.

Ar ôl cwblhau'r cyrsiau Cyflwyniad i Ffotograffiaeth, byddwch yn gallu parhau â'ch gwaith ffotograffig trwy gymryd rhan mewn cyrsiau a sesiynau pellach.

Rydym yn argymhell y cyrsiau Cyflwyniad i ddechreuwyr a'r rheiny sy'n awyddus i ategu eu sgiliau. I gael mwy o wybodaeth neu i drafod yr wybodaeth a'r profiad sydd yn angenrheidiol ar gyfer pob cwrs, cysylltwch ag Adran Addysg Ffotogallery, education@ffotogallery.org.

Oes angen camera arna i cyn dechrau'r cwrs?

Ar gyfer y cyrsiau Cyflwyniad i Ffotograffiaeth (Dechreuwyr a Chanolradd), bydd angen camera SLR 35mm arnoch neu unrhyw gamera digidol â gosodiadau estynedig (h.y. gallu i reoli dewisiadau â llaw). Nid ydym yn argymhell unrhyw fodolau penodol ond dylech geisio cael gafael ar gamera â chymaint o osodiadau â phosib (fel gallu i ffocysu â llaw, a gallu i reoli'r amlygiad heb ddefnyddio gosodiadau awtomatig).

Os ydych chi'n ansicr ynglŷn â chamera sydd eisoes yn eich meddiant, neu os oes gennych chi gwestiynau ynglŷn â phrynu camera, gallwch aros tan i'r cwrs ddechrau a gofyn i'ch tiwtor am gyngor.

Sawl lle sydd ar gael ar bob cwrs?

Rydym yn cofrestru 12 o fyfyrwr ar bob cwrs. Mae'r nifer fechan hon yn sicrhau awyrgylch cyfeillgar a digon o amser i drafod gyda'ch tiwtor.

Beth fydd ei angen arnaf ar gyfer y sesiwn gyntaf?

Dylech ddod â llyfr nodiadau a phen gyda chi bob amser - bydd pob sesiwn yn llawn gwybodaeth ddiddorol a defnyddiol. Os oes gennych gamera, dewch ag ef gyda chi hefyd. Os nad ydych chi'n berchen ar gamera ac os hoffech chi gyngor ynglŷn â pha un i'w brynu, bydd eich tiwtor yn hapus i roi cyngor i chi. Yn y sesiwn gyntaf, bydd y tiwtor yn sôn am y deunyddiau a fydd yn angenrheidiol ar gyfer gweddill y cwrs.

Pa ddeunyddiau fyddwch chi'n eu darparu?

Mae Ffotogallery yn darparu'r holl gemegau a'r holl offer angenrheidiol ar gyfer prosesu ffilm / prosesu digidol ac argraffu.

Fel myfyrwr, gofynnir i chi ddarparu eich ffilm a'ch papur argraffu eich hun. Gofynnir i chi hefyd gadw llyfr gwaith o nodiadau ac ymarferion. Peidiwch â dod ag unrhyw ddeunyddiau gyda chi i'r sesiwn gyntaf - bydd eich tiwtor yn dweud wrthyfch am y deunyddiau mwyaf addas a mwyaf cost-effeithiol i'w prynu.

Oes yna gyfyngiadau oed sy'n berthnasol i'r cyrsiau?

Bydd angen i chi fod yn 18 oed er mwyn cofrestru ar gyfer unrhyw un o'n cyrsiau achrededig. Ond y tu hwnt i hynny, does neb yn rhy hen! Rydym yn cynnig nifer o weithdai heb eu hachredu i bobl dan 18 oed. Gweler 'Dysgu' am fwy o wybodaeth.

Hygyrchedd

Cynhelir ein cyrsiau yn Academi'r Celfyddydau ar Trade Street, ar y llawr gwaelod a'r ail lawr. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn gwbl hygyrch ac mae lleoedd parcio ar gael i fyfyrwyr.

Os oes gennych chi ymholiadau neu ofynion mynediad penodol, ebostiwch Ffotogallery - education@ffotogallery.org - ac fe wnawn ein gorau i ddiwallu eich anghenion.

Sut mae mynd ati i gadw lle?

Er mwyn cadw lle ar unrhyw un o'n cyrsiau achrededig bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru a thalu ffi'r cwrs. Ni chaiff lleoedd eu cadarnhau tan i ni dderbyn y ffurflen a'r ffi. Rydym yn argymhell eich bod yn archebu cyn gynted â phosib am mai 12 o leoedd yn unig sydd ar gael ar bob cwrs. Nodwch os gwelwch yn dda na all Ffotogallery gadw lleoedd heb daliad llawn.

Cofrestru Ar-lein

Gallwch lenwi ein ffurflen gofrestru a gwneud eich taliad ar-lein. Mae'r taliadau ar-lein, £207 / £223, yn

cynnwys ffioedd Paypal.

Cofrestru drwy'r Post

Gallwch lawrlwytho ein ffurflen gofrestru fan hyn neu ofyn amdani trwy e-bostio education@ffotogallery.org. Argraffwch y ffurflen, ei llanw â llaw a'i dychwelyd drwy'r post, gyda sic am £200 / £215 yn daladwy i Ffotogallery Wales Cyf. Anfonwch eich ceisiadau at:

Addysg Ffotogallery, Tŷ Turner, Heol Plymouth, Penarth CF64 3DH

Achrediad

Cafodd pob un o'n cyrsiau ei achredu gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd ac maent yn werth 20 credyd Addysg Uwch. Er mwyn derbyn yr achrediad, bydd angen i fyfyrwyr gyflwyno eu gwaith ar ddiwedd y tymor ac ennill gradd 'Llwyddo'.

Prawf o Achrediad

Ar ôl cwblhau pob un o'n cyrsiau'n llwyddiannus, bydd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn anfon cydnabyddiaeth o'r credydau a enillwyd gan y myfyrwyr ar ffurf trawsgrifiad. Mae newidiadau diweddar yn golygu nad yw tystysgrifau ffurfiol ar gael bellach, ond fe allwn ni gynhyrchu tystysgrifau mewnol ar gais.

Oes rhaid i mi gyflwyno fy ngwaith i gael ei asesu?

Nid yw cyflwyno gwaith i'w asesu yn orfodol. Bydd angen i chi gyflwyno eich gwaith i'w asesu dim ond os ydych chi eisiau derbyn yr achrediad a marc/adborth am eich gwaith.

Canslo ac ad-daliadau

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn gywir adeg ei hargraffu ond fe all fod angen i ni ei newid o bryd i'w gilydd o ganlyniad i amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth. Os nad oes digon o fyfyrwyr wedi cofrestru ar gyfer cwrs cyn i'r cwrs hwnnw ddechrau, mae Ffotogallery yn cadw'r hawl i'w ganslo ac fe roddir ad-daliad llawn. Nid yw Ffotogallery yn gyfrifol am unrhyw golledion a ddaw o ganlyniad. Os bydd cwrs eisoes yn llawn pan fyddwch chi'n gwneud eich cais, byddwn yn dychwelyd eich taliad atoch.

Os penderfynwch chi beidio â mynychu cwrs cyn iddo ddechrau, a chithau eisoes wedi talu amdano,

bydd angen hysbysiad ysgrifenedig arnom o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dechrau'r cwrs er mwyn i ni drefnu ad-daliad. Nodwch os gwelwch yn dda y gall gymryd hyd at 6 wythnos i brosesu'r ad-daliad.

Os byddwch yn penderfynu canslo eich lle ar gwrs o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau'r cwrs, ni fyddwn yn gallu cynnig ad-daliad. Os byddwch yn gadael cwrs wedi iddo ddechrau, ni fyddwn yn cynnig ad-daliad. Os byddwch yn cofrestru ar gyfer y cwrs anghywir, ni fyddwn yn cynnig ad-daliad. Nid yw'n bosib i chi drosglwyddo eich cofrestrriad er mwyn dilyn cwrs arall neu drosglwyddo eich cofrestrriad i dymor arall.

Wrth gwblhau'r ffurflen gofrestru, rydych yn cytuno i gael eich rhwymo gan y telerau a'r amodau uchod.